# Asesiad Strwythuredig 2025

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Rhagfyr 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

Ciplun archwiliad 4
Ffeithiau a ffigyrau allweddol 7
Ein canfyddiadau 8
Argymhellion 27
1 Ynglŷn â'n gwaith 30
2 Argymhellion archwilio blaenorol 33
3 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr 42
4 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn 49
Amdanom ni 52

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried pa mor dda y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn cael ei lywodraethu a pha un a yw'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau. Fe wnaethom fwrw golwg ar bedwar maes yn arbennig:

- pa mor dda y mae ei fwrdd yn gweithio;
- sut y mae'n cadw golwg ar risgiau, perfformiad, ansawdd gwasanaethau, ac argymhellion;
- sut y mae'n cynhyrchu cynlluniau a strategaethau allweddol; a
- sut y mae'n rheoli ei gyllid.

2 Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi argymhellion ar waith o'r canlynol:

- adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol; a hefyd
- ein hadroddiad yn 2024 ar arbed costau.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Mae cyrff y GIG yn dal i wynebu ystod eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r angen i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau i ymdrin â chyllid cyfyngedig, galw cynyddol, ôl-groniadau triniaeth, prinderau o fewn y gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Mae'n bwysicach nag erioed felly bod gan fyrddau cyrff y GIG drefniadau llywodraethu corfforaethol ac ariannol cryf. Mae hyn yn helpu i roi sicrwydd iddynt hwy eu hunain, i'r cyhoedd, ac i randdeiliaid allweddol eu bod yn cymryd y camau cywir i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd da ac i ddefnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

4 Mae'r Bwrdd yn gweithredu'n dda, gyda hynny'n cael ei ategu gan drefniadau llywodraethu da. Mae'r strwythur pwyllgorau newydd yn ymwreiddio'n dda. Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â staff, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau ond rhaid iddo wella sut y mae'n monitro ac yn tracio camau gweithredu sy'n deillio o storïau gwrando a dysgu. Er bod y modd y mae'n rheoli risg yn effeithiol fel rheol, mae angen cryfhau trefniadau rheoli perfformiad i fynd i'r afael â heriau parhaus o ran cyrraedd targedau allweddol, yn enwedig mewn gofal brys ac a gynlluniwyd, canser, a diagnosteg. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar gynnal gwelliannau i ansawdd gwasanaethau. Mae angen iddo hefyd ymateb i rai argymhellion archwilio sy'n dal heb eu rhoi ar waith ers peth amser.

5 Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth hirdymor eglur, a Chynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i fantoli'n ariannol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ddatblygu Cynllun Gwasanaethau Clinigol Strategol, a ategir gan y gwaith modelu ariannol priodol. Fodd bynnag, araf yw'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud gyda'r gwaith hwn, sy'n effeithio ar allu'r Bwrdd i fwrw ymlaen yn gyflym â gwaith i drawsnewid gwasanaethau. Mae cynllunio ariannol yn gryf, ac mae gan y Bwrdd Iechyd hanes da o gyflawni ei gynllun ariannol. Ond bydd bylchau mewn cynlluniau arbedion, ynghyd â risgiau ariannol eraill, yn dal i olygu bod cyrraedd targedau ariannol yn gryn her.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

6 Rydym wedi cyflwyno chwe argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- adrodd yn eglur ar effaith camau gweithredu a gymerwyd i liniaru risgiau sefydliadol yn ei gofrestr risgiau sefydliadol;
- cymryd camau gweithredu brys a pharhaus i leihau risgiau a adnabuwyd gan Gronfa Risg Cymru;
- sicrhau bod rhoi argymhellion archwilio ar waith yn rhan allweddol o'i fframwaith atebolrwydd newydd;

- datblygu a gweithredu fframwaith trefnu strategaeth i gydlynu'r holl raglenni strategol a sicrhau bod ei strategaeth hirdymor yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus;
- safoni 'Cynlluniau ar Dudalen' y Cynllun Tymor Canolig Integredig i sicrhau cysondeb, eglurder, a'i gwneud yn haws cymharu blaenoriaethau a chynnydd; a
- chryfhau adroddiadau chwarterol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy ddangos yn glir beth yw effaith cyflawni'r cynllun ar draws yr holl feysydd gofynnol.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Yn fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd ar lefel 4 (ymyrraeth a dargedir) ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng a lefel 3 (monitro manylach) ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd ar hyn o bryd.

Mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd cymeradwy ar gyfer 2025-2028.

Yn 2024-25, fe gyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd ei dargedau ariannol trwy adennill costau ar wariant refeniw ac ar wariant cyfalaf. Fodd bynnag, ni chyflawnodd ei ddyletswydd i adennill costau dros y tair blynedd ddiwethaf oherwydd diffyg o £24.2 miliwn yr adroddwyd arno yn 2022-23.

Yn 2024-25, roedd y Bwrdd Iechyd yn amcanu at gyflawni £26.3 miliwn mewn arbedion ond £13.1 miliwn oedd y cyfanswm a gyflawnodd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn adennill costau ar gyfer 2025-26 ond mae'n wynebu £1.3 miliwn mewn risgiau. O'r £31.3 miliwn o arbedion a gynlluniwyd ganddo, mae £26.5 miliwn (85%) yn rhai cylchol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi 11 argymhelliad ar waith yn llawn o'r rhai a oedd yn dal yn weddill o adolygiadau asesu strwythuredig blaenorol. Mae 12 yn dal ar y gweill, mae 2 yn hwyr ac mae un wedi cael ei ddisodli gan argymhelliad newydd a wneir eleni.

# Ein canfyddiadau

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a pha mor agored ydyw

### Mae'r Bwrdd yn cyflawni ei fusnes yn effeithiol, gydag ymrwymiad parhaus i wella'n barhaus

#### Pa mor agored i'r cyhoedd yw busnes y Bwrdd

7 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddangos ei fod yn agored a thryloyw ynglŷn â gweithgareddau'r Bwrdd a phwyllgorau:

- mae'n parhau i gyhoeddi recordiadau o holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd;
- mae'r cyhoedd yn gallu arsylwi ar unrhyw gyfarfod cyhoeddus gan y Bwrdd;
- mae fel arfer yn cyhoeddi papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ar ei wefan wythnos cyn pob cyfarfod[1];
- mae cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg a gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gael ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd ar gais;
- dim ond ar gyfer materion sensitif neu gyfrinachol y defnyddir sesiynau preifat, gyda chyfeiriadau eglur ar yr agenda; ac
- mae trafodaethau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n dal i fod yn agored ac yn dryloyw, yn enwedig wrth drafod heriau.

8 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn hysbysebu cyfarfodydd pwyllgorau nac yn cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus ar eu cyfer, ond mae'n ystyried ceisiadau i fod yn bresennol gyda'r Cadeirydd pan ydynt yn codi.

[1] Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi papurau ar gyfer ei Grwpiau Cynghori Clinigol, Fforwm Partneriaeth Lleol na'i Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth oherwydd eu natur gyfrinachol.

9 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi cofnodion y Bwrdd a phwyllgorau ar ei wefan ar ôl eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf. Fel rhan o broses sicrwydd y Bwrdd Iechyd, maent yn cynnwys adroddiadau pwyllgorau yn y papurau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus rheolaidd y Bwrdd sy'n disgrifio'n glir unrhyw feysydd y mae gofyn eu huwchgyfeirio.

## Rhoi cymorth i gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol

10 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu eglur ac wedi'u diweddaru sy'n helpu'r Bwrdd a'i bwyllgorau i redeg yn effeithiol. Mae'n cynnal trefn ffurfiol ar gyfer Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo sy'n nodi atebolrwydd, gyda thudalennau gwe wedi'u neilltuo ar gyfer Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

11 Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn goruchwylio'r modd y cydymffurfir â Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo, ac yn monitro achosion o dorri'r rhain trwy adroddiadau rheolaidd.

12 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i hybu uniondeb a phriodoldeb. Mae'n cynnal polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr. Fe adolygodd y polisi Safonau Llywodraethu ac Uniondeb Da ym mis Mai 2025 ac mae'n adrodd yn rheolaidd ar ddatganiadau o fuddiant a rhoddion wrth y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Mae'n gwella'r modd y caiff polisïau eu tracio trwy'r Adolygiad o Bolisïau a ddechreuodd ym mis Ionawr 2025, ac mae'r holl bolisïau a adnabuwyd ar ei dudalen bolisïau gyhoeddus ar y wefan allanol bellach wedi'u diweddaru.

## Sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y Cydbwyllgor Comisiynu

13 Fe sefydlwyd y Cydbwyllgor Comisiynu ym mis Ebrill 2024 fel cydbwyllgor rhwng y saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae'r Cydbwyllgor Comisiynu'n cynllunio ac yn chomisiynu ystod o wasanaethau arbenigol a gwasanaethau gofal iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau meddygol argyfwng, ar ran y saith bwrdd iechyd.

14 Fel rhan o asesiad strwythuredig eleni, fe wnaethom adolygu pa un a yw'r Bwrdd yn cael y lefel gywir o sicrwydd ynghylch busnes y Cydbwyllgor Comisiynu, yn ogystal ag ymwneud y Bwrdd Iechyd â chyfarfodydd a gweithgareddau'r Cydbwyllgor Comisiynu.

15 Fel corff lletyol y Cydbwyllgor Comisiynu, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymhwyso ei drefniadau llywodraethu ei hun i gefnogi a goruchwylio'r pwyllgorau sy'n rhan o'r model lletya. Nid yw Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y corff a letyir yn endid ar wahân ond mae'n rhan o strwythur llywodraethu CTM. Mae'n gweithredu gan ddefnyddio adnoddau'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys yr un Cadeirydd Pwyllgor, Aelodau Annibynnol a chymorth llywodraethu, ac fe wahoddir un o aelodau lleyg y Cydbwyllgor Comisiynu i fod yn bresennol. Hefyd, mae'r Cydbwyllgor Comisiynu'n defnyddio Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd ac mae wedi mabwysiadu prosesau rheoli risg y Bwrdd Iechyd. Mae'r Prif Gomisiynydd yn cael cyfarfodydd chwarterol gyda Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd yn ei rôl fel y corff lletyol i geisio sicrwydd angenrheidiol gan y Cydbwyllgor Comisiynu, lle y bo'n ofynnol.

16 Ar wahân, yn ei rôl gomisiynu, mae Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yn aelod o'r Cydbwyllgor Comisiynu ac yn cyfranogi yn ei broses benderfynu. Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd priodol a gwybodaeth briodol ynghylch gwaith y Cydbwyllgor Comisiynu. Mae papurau'r Bwrdd yn cynnwys eitemau sy'n gysylltiedig â'r Cydbwyllgor Comisiynu megis cymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo wedi'i ddiweddaru, adroddiadau ar y prif bwyntiau sy'n cynnwys sgoriau CAG, a diweddariadau gan y Prif Gomisiynydd. Mae'r rhain yn galluogi'r Bwrdd i weld gweithgarwch y Cydbwyllgor Comisiynu mewn modd sy'n wahanol i'r cyfrifoldebau llywodraethu ychwanegol y mae'n eu cyflawni fel y corff lletyol.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau

17 Ym mis Ionawr 2025, fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd strwythur pwyllgorau newydd i ddarparu rheolaeth fwy effeithlon ac effeithiol ar fusnes y Bwrdd a phwyllgorau a darparu mwy o oruchwyliaeth strategol a gweithrediadol ar y sefydliad. Fe leihaodd nifer pwyllgorau blaenorol y Bwrdd o naw i saith ac mae wedi creu Pwyllgorau Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithrediadol newydd. Mae'r trefniadau diwygiedig yn ymwreiddio ac yn aeddfedu, er y bu rhai heriau cychwynnol. Ar adegau, mae agendâu mawr ar gyfer y pwyllgorau newydd a grëwyd wedi achosi i rai eitemau gael eu rhuthro, gyda hynny o bosibl yn cyfyngu ar graffu a goruchwyliaeth. Mae pob pwyllgor yn cynnal cylch busnes blynyddol a blaengynllun gwaith mewn modd effeithiol.

18 Ym mis Hydref 2025, fe wnaeth y Bwrdd adolygu'r trefniadau newydd, gan adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella o ran pennu agendâu, amserlennu, a llif busnes. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol bellach yn rhoi ystod o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith i ymdrin â'r materion a adnabuwyd.

19 Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n gweithredu'n dda fel rheol. Ceir cynlluniau gwaith eglur ac mae cadeiryddion pwyllgorau'n helpu i bennu'r agenda gan ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae busnes rheolaidd yn cael ei reoli'n effeithiol trwy agenda gydsynio. Mae cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda, gyda phob aelod yn gallu cyfrannu at faterion allweddol, ac fe geir cydbwysedd da o her a chymorth. Mae materion yn cael eu rhannu a'u huwchgyfeirio'n effeithiol rhwng pwyllgorau a'r Bwrdd, gyda chamau gweithredu eglur yn cael eu hadnabod mewn ymateb.

## Ansawdd ac amseroldeb gwybodaeth i'r Bwrdd

20 Mae papurau'r Bwrdd a phwyllgorau fel rheol yn amserol, wedi'u strwythuro'n dda, ac yn amlygu risgiau a phenderfyniadau allweddol. Mae adroddiadau eglurhaol yn dilyn fformat safonol, ac mae asesiadau o'r effeithiau'n cael eu cwblhau fel rhan o'r drefn arferol. Fe wnaethom argymell yn flaenorol bod y Bwrdd Iechyd yn diweddaru dalenni blaen ei gyflwyniadau i ddangos y pwyntiau a'r risgiau allweddol. Mae bellach wedi ymdrin â'r mater hwn, ac mae'r tîm Llywodraethu Corfforaethol yn darparu hyfforddiant ysgrifennu adroddiadau i staff ar gais ac yn adolygu'r holl bapurau cyn cyfarfodydd i sicrhau ansawdd a chydymffurfiaeth. Mae aelodau'n gwerthfawrogi'r ansawdd, ond gallai rhai adroddiadau gael eu crynhoi'n well i ganolbwyntio ar faterion allweddol a lleihau hyd papurau ar y cyfan. Er bod y rhan fwyaf o adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar amser, mae papurau hwyr yn cyfyngu o bryd i'w gilydd ar allu aelodau i'w hadolygu'n llawn, cyn y cyfarfod[2].

## Clywed gan staff a defnyddwyr gwasanaethau

21 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ennyn ymgysylltiad staff, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau trwy storïau gwrando a dysgu, cyflwyniadau sylw manwl, arolygon staff, sioeau teithiol, a theithiau goruchwylio gan y Bwrdd. Gyda chydsyniad, mae'n cyhoeddi fideos storïau cleifion ar ei wefan. Mae'r storïau hyn yn goleuo gwelliannau i wasanaethau yr adroddwyd arnynt wrth y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2025 gan ddangos y gwersi a'r gwelliant a ddeilliodd o adborth gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, rhaid i'r Bwrdd Iechyd gryfhau sut y mae'n monitro ac yn tracio effaith camau gwella.

---

[2] Cafodd y papurau ar gyfer Cyfarfod Eithriadol y Pwyllgor Cyflawni Gweithredadol a gynhaliwyd ar 19 Mai 2025 eu cyhoeddi dri niwrnod calendr cyn y cyfarfod.

## Cydlyniad y Bwrdd a'i wella'n barhaus

22 Mae gan y Bwrdd Iechyd Fwrdd sefydlog, cydlynus. Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe benododd Gyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid newydd, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion, ac fe rannodd gyfrifoldebau'r Dirprwy Brif Weithredwr rhwng y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl.

23 Mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydlu ac yn cefnogi aelodau newydd ei Fwrdd yn effeithiol. Yn ystod y flwyddyn, mae wedi penodi dau Aelod Annibynnol sy'n cynrychioli Digidol a Llywodraeth Leol. Mae hefyd wedi penodi Aelod Cyswllt o'r Bwrdd ar gyfer Gofal Sylfaenol. Bydd rhagor o newidiadau'n dilyn yn 2026 pan fydd un Aelod Annibynnol arall yn cwblhau ei chyfnod yn y rôl.

24 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n cynnal hunanasesiadau blynyddol i adolygu pa mor dda y maent yn gweithio. Roedd canlyniadau'r rhain yn gadarnhaol fel rheol, gan olygu nad oedd unrhyw newidiadau mawr yn ofynnol. Fodd bynnag, roedd cyfraddau ymateb rhai pwyllgorau'n isel lle'r oedd yr hunanasesiadau yn y cwestiwn, felly mae cyfle i ddeall y rhesymau dros hyn ac ymdrin â hwy.

25 Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen datblygu'r Bwrdd sy'n gynhwysfawr. Fe ymdriniodd sesiynau eleni â risg strategol, sicrwydd y Bwrdd, busnes y Bwrdd, a meithrin ysbryd tîm. Mae'r sesiynau hyn yn cryfhau perthnasoedd, mewnwelediad strategol, a rhwydweithio. Mae adborth aelodau a blaenoriaethau'r Bwrdd yn siapio blaenraglen ddatblygu'r Bwrdd yn effeithiol.

# Darparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli risg yn dda ond rhaid iddo ddangos effaith fwy eglur o ganlyniad i gamau lliniaru a chyflawni gwelliannau mesuradwy mewn perfformiad ac ansawdd, yn enwedig mewn meysydd risg-uchel**

## Rheoli risgiau strategol

26 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cynhwysfawr y mae'r Bwrdd yn ei adolygu ym mhob cyfarfod. Mae'n cofnodi ac ym monitro risgiau strategol allweddol sy'n cyd-fynd â strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd. Nodir gwybodaeth eglur ar gyfer pob risg ar ffurf cyfarwyddwr â phrif gyfrifoldeb, pwyllgor sicrwydd, sgôr, taflwybr, a dull diffiniedig ar gyfer ymdrin â'r risg.

27 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi rheolaethau, ffynonellau sicrwydd, bylchau, a chamau lliniaru. Mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, gyda risgiau'n cael eu huwchgyfeirio neu eu cau mewn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg a phenderfyniadau'r Bwrdd. Fodd bynnag, er bod camau gweithredu'n nodi effeithiau bwriadedig, dylai Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd dracio effeithiau gwirioneddol hefyd i ddangos effeithiolrwydd a rhoi cymorth i ddysgu gwersi.

## Rheoli risgiau corfforaethol

28 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system rheoli risgiau eglur, gan ddiweddaru ac adolygu polisïau a gweithdrefnau'n flynyddol. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn darparu hyfforddiant risg ar draws y sefydliad. Mae pwyllgorau'n adolygu'r gofrestr risgiau sefydliadol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd cyhoeddus a phreifat, lle mae aelodau'n archwilio ac yn trafod risgiau'n rheolaidd. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn adolygu'r gofrestr lawn, gan gynnwys risgiau newydd, wedi'u cau ac sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio map gwres i amlygu'r risgiau mwyaf. Er bod y gofrestr yn fanwl a chyfoes, gall y Bwrdd Iechyd wneud mwy i ddangos yn glir ac egluro sut y mae ei gamau gweithredu'n mynd mor bell â lleihau risgiau.

## Rheoli perfformiad

29 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rhesymol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae wrthi ar hyn o bryd yn datblygu ei fframwaith atebolrwydd a chyn bo hir bydd yn rhedeg sesiwn datblygu'r Bwrdd a fydd wedi'i bwriadu i wella'r modd yr adroddir ar berfformiad.

30 Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ac yn cynnwys dangosfyrddau gyda data ar dueddiadau, gwybodaeth feincnodi, a mesurau ansawdd. Mae'n amlygu risgiau allweddol, megis pwysau ar ofal argyfwng, oedi gydag adfer llawfeddygaeth ddewisol, prinderau yn y gweithlu, a heriau ariannol. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r adroddiad yn fanwl gan ofyn am sicrwydd ychwanegol pan fo angen. Er bod camau gweithredu ar gyfer meysydd lle ceir tanberfformiad yn eu lle, mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn dal i beidio â dangos yn glir a yw'r camau gweithredu hyn yn cyflawni eu heffaith fwriadedig.

31 Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd trwy wella perfformiad mewn Gwasanaethau Plant a'r Glasoed, agweddau ar Ofal a Gynlluniwyd, a Gwasanaethau Canser. Fodd bynnag, mae heriau mawr yn bodoli o hyd. Mae arosiadau hir am ofal a gynlluniwyd a diagnosteg yn parhau, ac mae'n dal yn wir bod angen ymdrin ag ôl-groniadau mewn gwasanaethau ar gyfer cleifion allanol. Mae perfformiad canser yn y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn gymysg. Er bod rhai gwasanaethau'n cyrraedd targed y Llwybr Canser Sengl, ceir heriau o hyd mewn gwasanaethau canser Wroleg, canser y Fron a chanser y Colon a'r Rhefr. Mae gofal brys ac argyfwng yn dal i fod yn her sylweddol oherwydd bod oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys, arosiadau hir mewn adrannau argyfwng, a phroblemau llif cleifion yn parhau. Mae prinderau staff a galw uchel yn ychwanegu at y materion hyn.

## Monitro ansawdd a diogelwch

32 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adeiladu sylfaen gref ar gyfer ansawdd er bod angen rhagor o weithredu mewn nifer o feysydd. Mae'r Strategaeth a'r Fframwaith Ansawdd yn gosod nodau eglur ar gyfer gofal diogel, tosturiol, ac mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn goruchwylio cynnydd. Maent yn defnyddio dangosfyrddau ac adroddiadau i dracio mesurau ansawdd allweddol, digwyddiadau, a gwelliannau, gan gynnwys gwasanaethau mamolaeth ac adroddiadau ansawdd blynyddol.

33 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau i helpu i leihau risgiau i ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys ymdrin yn well â chwynion a phrosiectau gwella ansawdd newydd, ond mae risgiau'n bodoli o hyd. Fodd bynnag, mae prinderau staff, rheoli heintiau, a phwysau ar wasanaethau oll yn creu heriau parhaus. Mae gwasanaethau gofal diwedd oes yn dal i fod yn bryder difrifol. Canfu'r gwasanaeth archwilio mewnol fylchau mawr mewn arweinyddiaeth, hyfforddiant staff, gwybodaeth gyhoeddus, a goruchwyliaeth. Dangosodd stori ddiweddar ar gyfer y Bwrdd hefyd fod angen gwella'r maes hwn ar frys.

34 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wastad yn ateb gofynion gwasanaeth cenedlaethol Cronfa Risg Cymru pan ydynt yn adnabod materion ansawdd y mae angen ymdrin â hwy. Er bod gan y Bwrdd bolisïau a fframweithiau ansawdd, canfu adroddiad Asesu Pryderon Cronfa Risg Cymru nad ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws y sefydliad. Mae oedi cyn cyflwyno Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau wedi arwain at gosbau ariannol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn araf i ddangos ei fod wedi dysgu o gamgymeriadau. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd glirio'r adroddiadau hwyr, dysgu o ddigwyddiadau, a gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn deall ac yn dilyn prosesau ansawdd.

35 Mae'r Bwrdd yn rhoi'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd ar waith ac mae wedi ailddylunio'r adroddiad Dyletswydd Ansawdd fel adnodd digidol rhyngweithiol. Mae'r adroddiad newydd hwn yn dwyn ynghyd ddangosfyrddau, storïau cleifion, ac adborth gan randdeiliaid. Fel a argymhellwyd yn flaenorol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd amlygu'r heriau y mae'n eu hwynebu o ran ateb gofynion y dyletswyddau a phennu cerrig milltir a thargedau eglur i dracio gwelliant.

## Tracio a monitro argymhellion

36 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rhesymol ar gyfer tracio argymhellion archwilio a gweithredu arnynt, er bod achosion lle mae cynnydd yn araf. Mae'n defnyddio'r system AMaT[3] i fonitro camau gweithredu gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru, ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r system yn darparu diweddariadau byw, perchnogaeth glir, a chymeradwyaeth weithredol. Mae negeseuon atgoffa rheolaidd ac uwchgyfeirio'n helpu i gadw cynnydd ar y trywydd iawn, ac mae camau gweithredu sy'n hwyr yn cael sylw wedi lleihau, yn enwedig ar gyfer Archwilio Mewnol. Mae adroddiadau i'r Pwyllgorau Archwilio, Risg a Sicrwydd ac Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn rhoi diweddariadau strwythuredig, ac mae rhagor o welliannau yn yr arfaeth i wella'r system.

37 Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o'r Offeryn Tracio Argymhellion Archwilio sgôr sicrwydd rhesymol ond fe adnabu fod rhai camau gweithredu'n dal yn hwyr neu fod terfynau amser hir iawn ar eu cyfer, ac nad yw'r broses ar gyfer cau camau gweithredu'n gwbl gyson.

38 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd araf o ran ymdrin â'n hargymhellion blaenorol:

- Mae 11 allan o 26 o argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol bellach wedi'u cwblhau. O'r 15 o argymhellion sy'n weddill, mae 12 ar y gweill ar hyn o bryd, mae dau wedi mynd y tu hwnt i'w dyddiad cwblhau arfaethedig, ac mae un wedi cael ei ddisodli gan argymhelliad newydd a wneir eleni.
- Mae pedwar allan o wyth o'r argymhellion yn yr Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau a gyhoeddwyd gennym yn 2024 wedi cael eu cwblhau. Rydym yn trafod hyn yn fwy ym **mharagraff 62**.

39 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo gryfhau perchnogaeth ac atebolrwydd ar gyfer camau gweithredu sy'n codi o waith archwilio. I gryfhau atebolrwydd am wella, dylai cynnydd gydag argymhellion archwilio gael ei gynnwys yn y Fframwaith Atebolrwydd newydd.

---

[3] Offeryn rheoli a thracio argymhellion archwilio yw AMaT, sy'n defnyddio dangosfyrddau i roi cuddwybodaeth, ac sy'n galluogi staff i ddiweddaru cynnydd mewn amser real, gan leihau'r baich ar dimau llywodraethu gan ei fod yn awtomeiddio llawer o'r prosesau, megis gofyn am ddiweddariadau ar gynnydd.

40 Rhaid i'r Tîm Gweithredol gryfhau ei berchnogaeth a'i gymorth ar y cyd lle mae gweithgarwch archwilio yn y cwestiwn. Trwy gydol y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd hysbysiadau dro ar ôl tro gan archwilwyr mewnol ac allanol am oedi cyn bod y rheolwyr yn darparu gwybodaeth ac yn ymateb i rai adroddiadau archwilio, yn enwedig am y camau gweithredu bwriadedig mewn ymateb i argymhellion. Mae'r oedi hwn wedi achosi arafwch sylweddol wrth gyflawni gwaith archwilio. Nid oedd y materion hyn yn ymwneud â'r archwiliad statudol o'r cyfrifon ariannol, lle nad adroddwyd ar unrhyw oedi. Er y cydnabyddir bod uwch reolwyr yn wynebu pwysau sylweddol ar wasanaethau, dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd pob cam rhesymol i roi cymorth i gyflawni gwaith archwilio mewn modd amserol ac ymateb yn amserol i argymhellion sy'n deillio o'r gwaith hwnnw.

# Paratoi strategaethau a chynlluniau

## Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth strategol glir a chynllun tymor canolig a gymeradwywyd, er bod angen iddo gryfhau rhai agweddau ar y ffordd y mae'n monitro gwaith i gyflawni ei gynlluniau

### Cynhyrchu strategaethau a chynlluniau allweddol

41 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen â'i strategaeth hirdymor, CTM2030: Creu Cymunedau Iachach Gyda'n Gilydd, sy'n nodi gweledigaeth uchelgeisiol i drawsnewid iechyd a gofal. Mae ei phedwar nod, Creu Iechyd, Gwella Gofal, Cynnal Ein Dyfodol, ac Ysbrydoli Pobl, yn canolbwyntio ar atal, tegwch a chynaliadwyedd. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ac fe'i hategir gan raglenni allweddol, megis y Cynllun Gwasanaethau Clinigol Strategol, trawsnewid Gofal Sylfaenol a Chymunedol, a'r rhaglen ddigidol.

42 Er bod y Bwrdd Iechyd yn dangos cynnydd gyda phrosiectau strategol allweddol gan gynnwys Parc Iechyd Llantrisant[4] ac Ysbyty Cymunedol Maesteg[5], araf yw'r cynnydd o ran datblygu ei Gynllun Gwasanaethau Clinigol Strategol. Mae bellach yn datblygu cynllun wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2026-2036 i integreiddio gofal acíwt, cymunedol a sylfaenol, a ategir gan gynlluniau digidol, y gweithlu a chyllid. Mae ymgysylltu wedi dechrau, ond rhaid i'r cynllun nodi achos eglur dros newid, diffinio cerrig milltir, a manylu ar y gofynion o ran adnoddau. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn creu fframwaith trefnu strategaeth. Nod y fframwaith hwn yw cydlynu'r holl raglenni strategol a newid gwasanaethau'n gyflymach a rheoli unrhyw risgiau o ran capasiti a chynaliadwyedd.

43 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu proses gadarn i ddatblygu, cymeradwyo, a chyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) sydd wedi'i fantoli'n ariannol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio data iechyd y boblogaeth, asesiadau o anghenion, ac ymgysylltu â staff, partneriaid a'r cyhoedd i oleuo'i ddatblygiad. Mae aelodau'r Bwrdd yn cyfrannu'n weithredol at ddatblygu'r cynllun trwy sesiynau datblygu'r Bwrdd.

44 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28 yn nodi sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd ei nodau strategol ac mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol. Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ym mis Mawrth 2025, gan gydymffurfio â'r ffrâm amser ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Wedyn fe wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r cynllun gan ddynodi, am ail flwyddyn, bod hyder o hyd yng ngallu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni gwelliannau. Rydym yn nodi mai'r Bwrdd Iechyd oedd yr unig fwrdd iechyd yng Nghymru i gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i fantoli'n ariannol ar gyfer 2025-28 a gymeradwywyd wedi hynny gan Lywodraeth Cymru.

[4] Nod Rhaglen Parc Iechyd Llantrisant yw darparu canolfan diagnosteg a thriniaeth o'r radd flaenaf.

[5] Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen ag achos dros ddatblygu canolfan iechyd a llesiant ym Maesteg.

## Sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch gweithio mewn partneriaeth

45 Mae gan y Bwrdd drefniadau da ar gyfer cael sicrwydd ynghylch gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol, ar lefel ranbarthol ac mewn partneriaeth. Mae agendâu'r Bwrdd yn cynnwys eitem sefydlog ar 'Y Boblogaeth/Gweithio gydag Eraill', sy'n cwmpasu pynciau megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cytundebau partneriaeth ranbarthol, a diweddariadau gan y cydbwyllgor.

46 Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2025, fe gymeradwyodd y Bwrdd Iechyd Gytundeb Partneriaeth Ranbarthol gyda'r tri awdurdod lleol yn ôl troed Cwm Taf Morgannwg. Nod y cytundeb yw dod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd dan drefniadau llywodraethu cyffredin ac atebolrwydd ar y cyd. Mae'n canolbwyntio ar atal, cymorth cynnar, a deilliannau gwell i bobl ledled y rhanbarth. Bydd partneriaid yn cydweithio i gynllunio gwasanaethau, rhannu adnoddau, a lleihau dyblygu i wneud gofal yn fwy effeithlon ac yn haws cael mynediad ato.

47 Ym mis Ebrill 2025, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd i Gadeiryddion Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro sefydlu Cydbwyllgor Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru. Ym mis Medi 2025, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo sefydlu'r Pwyllgor a chymeradwyo ei gylch gorchwyl. Diben y pwyllgor yw llywio gwaith cynllunio a thrawsnewid gwasanaethau ar lefel ranbarthol, gwella deilliannau iechyd a thegwch, meithrin cydweithio rhwng sefydliadau, a rhoi cymorth cydgysylltiedig i fyrddau iechyd mewn meysydd sy'n flaenoriaeth. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2025, gan olygu ei bod hi'n rhy gynnar i farnu ei effaith.

48 Dengys ein hadolygiad diweddar o ofal llygaid ar draws pob un o'r byrddau iechyd yn rhanbarth de ddwyrain Cymru, er bod peth cynnydd yn cael ei wneud, nad yw manteision bwriadedig gweithio rhanbarthol wedi cael eu cyflawni'n llawn eto ac y gall strwythurau llywodraethu cymhleth wneud prosesau penderfynu'n araf ac yn llafurus. Mae Cydbwyllgor Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru'n gyfle i ystyried sut y caiff awdurdod dirprwyedig a phrosesau penderfynu eu symleiddio.

## Monitro'r modd y cyflawnir strategaethau/cynlluniau

49 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol i oruchwylio ei Gynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-2028 yn cyd-fynd â CTM2030 ac fe'i cyflawnir trwy bum 'grŵp strategaeth cwrs bywyd'[6]. Mae pob grŵp yn cynhyrchu 'cynllun ar dudalen' sy'n nodi gweledigaeth, blaenoriaethau, camau gweithredu, deilliannau, llinellau amser a dangosyddion perfformiad. Fodd bynnag, mae lefel y manylder a'r strwythur yn y cynlluniau hyn yn amrywio ar draws grwpiau. Er enghraifft, mae 'cynllun ar dudalen' Dechrau a Thyfu'n Dda yn dangos blaenoriaethau, ffactorau galluogi, mesurau llwyddiant a deilliannau. Mewn cyferbyniad, mae'r fersiwn Bywyd Fel Oedolyn/Byw'n Dda yn rhestru blaenoriaethau a chamau gweithredu yn unig.

50 Mae diweddariadau chwarterol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyflawni Gweithrediadol a'r Bwrdd. Maent yn dangos y cynnydd a'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn camau gweithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig dros y chwarter diwethaf. Mae adroddiadau eglurhaol yn nodi pwyntiau allweddol a heriau ac yn cynnwys atodiadau manwl. Er bod cynnydd yn erbyn targedau gwasanaethau acíwt yn eglur ac yr adroddir arno trwy'r Dangosfwrdd Perfformiad Integredig, mae angen rhagor o waith i ddangos effaith cyflawni'r cynllun mewn meysydd eraill, megis gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol. Mae mesurau deilliannau iechyd y boblogaeth yn dal wrthi'n cael eu datblygu.

51 Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol ar gyfer goruchwylio ei Gynllun Tymor Canolig Integredig, mae angen cryfhau ei oruchwyliaeth ar strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach[7]. Er bod y cynlluniau hyn yn nodi blaenoriaethau eglur, mae angen mwy o eglurder o ran eu cerrig milltir, eu deilliannau, ac atebolrwydd am gyflawni. Hefyd, nid yw adroddiadau ar y cynlluniau hyn yn dangos yn glir beth yw'r cynnydd o ran eu cyflawni, y risgiau i hynny, y camau gweithredu i leihau risgiau, a llinellau amser wedi'u diweddaru.

---

[6] Y grwpiau strategaeth 'cwrs bywyd' yw: dechrau'n dda, tyfu'n dda, byw'n dda, heneiddio'n dda, a marw'n dda.

[7] Gwasanaethau Cymunedol Integredig – Strategaeth Gofal Sylfaenol, Cynllun Cyflawni Creu Iechyd, Cynllun Pobl 2025-2028, a'r Strategaeth Ddiogelu.

# Rheoli’r sefyllfa ariannol

## Mae cynllunio a goruchwylio ariannol y Bwrdd Iechyd yn gadarn, ond mae risgiau sylweddol a diffygion sylweddol mewn arbedion yn parhau i greu heriau i'r sefyllfa ariannol

### Cyflawni amcanion a dyletswyddau ariannol

52 Cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd ei dargedau ariannol ar gyfer 2024-25, gan adennill costau ar gyfer refeniw a chyfalaf. Fodd bynnag, ni chyflawnodd ei ddyletswydd i adennill costau dros y tair blynedd ddiwethaf oherwydd diffyg o £24.2 miliwn yr adroddwyd arno yn 2022-23. Pe gallai’r Bwrdd Iechyd adennill costau yn 2025-26, byddai’n cyflawni’r ddyletswydd ariannol tair blynedd ar gyfer y cyfnod 2023-2026.

53 Mae’r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar ddiffyg o £1.4 miliwn ym mis Chwefror 2026 ac yn rhagweld y bydd yn adennill costau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025-26. Fodd bynnag, mae’n rheoli rhai risgiau ariannol a allai effeithio ar y sefyllfa y mae’n ei rhagweld. Achosir hyn gan fwlch o £5.6 miliwn mewn perthynas â chyrraedd targedau arbedion, ynghyd ag £1.3 miliwn mewn risgiau ariannol ychwanegol.

### Trefniadau cynllunio ariannol

54 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddulliau cynllunio ariannol cryf sy’n cyd-fynd â’i flaenoriaethau ehangach. Fe gymeradwyodd y Bwrdd ei gynllun ariannol 2025-26 fel rhan o’r broses o gymeradwyo’r Cynllun Tymor Canolig Integredig ym mis Mawrth. Mae’r cynllun yn amlinellu’r diffyg sylfaenol yr oedd yn ei wynebu ar ddechrau’r flwyddyn, pwysau chwyddiannol, a tharged arbedion o £31.3 miliwn. Fel y mae wedi’i wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cynllun 2025-28 yn amcanu at barhau i adennill costau dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn dangos arfer da o ran cynllunio, blaenoriaethu a rheolaeth ariannol.

55 Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall beth sy'n dylanwadu ar ei gostau. Mae ei Gynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi risgiau a chyfleoedd. Mae'r prif risgiau'n cynnwys y gweithlu, darparu gwasanaethau a'u trawsnewid, a chyfalaf ac ystadau. Mae cyfleoedd yn cynnwys arbed arian trwy brosiectau ynni a datgarboneiddio, rheoli meddyginiaethau'n well, a thrawsnewid digidol.

56 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal ffocws cryf ar fantoli'r cyfrifon ariannol. Er y gall y dull hwn gyfyngu ar wariant a buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau, mae'n dal i fod wedi adnabod buddsoddiadau yn ôl disgresiwn mewn gwasanaethau yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig, a ategwyd gan broses gryfach i asesu'r effeithiau ar ansawdd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i neilltuo £2.9 miliwn mewn buddsoddiadau[8], gyda £3.4 miliwn ychwanegol[9], sy'n ddibynnol ar sefyllfa ariannol well.

57 Mae CTM2030 yn amcanu at sicrhau gwasanaethau ariannol gynaliadwy. Mae'r Bwrdd wrthi ar hyn o bryd yn datblygu ei Gynllun Gwasanaethau Clinigol Strategol a modelu ariannol priodol i ategu'r flaenoriaeth hon.

58 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu graddfa ei raglen arbedion ar gyfer 2025-26, gan amcanu at arbed 3% o'i gyfanswm gwariant. Mae hyn yn gyfwerth â £31.3 miliwn, sydd £8.1 miliwn yn fwy na'r llynedd. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gyrraedd targed arbedion o £21.7 miliwn gan Grwpiau Gofal a hynny trwy ystod o fentrau a ysgogir yn lleol.

---

[8] Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i neilltuo £2.9 miliwn i fuddsoddiadau mewn Gwarchod Iechyd, Uned Gofal Dwys Ysbyty'r Tywysog Siarl, Gwasanaeth Cyswllt Torasgwrn, Recriwtio Meddygon Ymgynghorol, Gwarcheidwaid Codi Llais, Buddsoddi Digidol, Achosion Busnes Felindre a Chymorth Strategaethau.

[9] Mae'r £3.4 miliwn ychwanegol mewn buddsoddiadau'n ymwneud â Hyfforddiant PMVA, Diabetes (CLPS) NICE, Rheoli Pwysau Plant, a Buddsoddi Digidol.

59 Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno rhaglen arbedion a gaiff ei llywio'n ganolog sy'n canolbwyntio ar wella cynhyrchiant y gweithlu meddygol a nyrsio, newidiadau i wasanaethau, a chyswllt sy'n canolbwyntio ar y claf[10]. Mae gan bob maes arbedion arweinydd yn y Tîm Gweithredol, gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Pobl yn arwain y prosesau cydlynu a sicrwydd ar gyfer y rhaglen. Mae'r arweinyddiaeth ar y cyd yn hyn o beth yn sicrhau nad dim ond timau cyllid sy'n ysgogi arbedion, a bod ffocws ehangach ar werth a gwella. Mae cyfarfodydd rheolaidd, gwiriadau cynnydd pythefnosol, ac adolygiadau misol gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol yn cadw'r rhaglen ar y trywydd iawn, yn rheoli risgiau, ac yn sicrhau bod nodau ariannol, nodau o ran y gweithlu, a nodau ar gyfer gwasanaethau'n cyd-fynd â'i gilydd.

60 Mae cynnydd o ran cyflawni'r cynllun arbedion yn arafach na'r disgwyl. Erbyn Mis 7, mae'r Bwrdd Iechyd wedi arbed £10.8 miliwn, sydd £7.5 miliwn yn llai na'r targed o £18.3 miliwn ar gyfer yr adeg honno yn y flwyddyn. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl yn awr y bydd yn arbed £25.3 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn hon - £6 miliwn yn llai na'r targed gwreiddiol o £31.3 miliwn.

61 Fe gynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad dilynol yn dilyn ei adolygiad o drefniadau arbed costau ym mis Mai 2025 gan roi sgôr sicrwydd rhesymol. Fe gadarnhaodd fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da gyda'i argymhellion archwilio blaenorol ond canfu hefyd fylchau yng nghynlluniau prosiectau arbedion ac mewn dogfennaeth asesu risgiau. Yn 2024, fe wnaeth Archwilio Cymru adolygu dull arbed costau'r Bwrdd Iechyd. O'r wyth argymhelliad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd gyda thri wedi'u cwblhau a phump ar y gweill. Caiff meysydd y mae gofyn gwneud rhagor o waith ynddynt eu nodi yn **Atodiad 2**.

[10] Ystyr arbedion sy'n ymwneud â chyswllt sy'n canolbwyntio ar y claf yw gostyngiadau mewn costau a gyflawnir trwy ailddylunio sut y mae cleifion yn rhyngweithio â gwasanaethau iechyd, gwneud cyswllt yn fwy effeithlon, digidol a gwneud iddo ganolbwyntio'n fwy ar anghenion cleifion.

## Trefniadau rheoli ariannol

62 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli ariannol cryf. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu adroddiadau ar newidiadau ac achosion o dorri Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol. Mae'r Pwyllgor yn monitro colledion, taliadau arbennig, gwiriadau ar ôl talu, y cynllun dirprwyo, gweithredoedd tendr sengl, a phryniadau gwerth uchel. Nid yw'r diweddariadau diweddaraf ym mis Tachwedd 2025 yn nodi unrhyw faterion arwyddocaol.

63 Fe wnaethom argymell yn flaenorol bod y Bwrdd Iechyd yn diweddaru ei weithdrefnau rheolaeth ariannol. Mae adroddiadau diweddar i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn dangos bod gweithdrefnau wedi cael eu diweddaru mewn ymateb i'n hargymhelliad. Mae cynlluniau Gwrthdwyll yn cynnwys gwaith rhagweithiol ac adweithiol. Mae diweddariadau gwrthdwyll diweddar yn cadarnhau cynnydd mewn meysydd risg allweddol ac yn nodi nad oes unrhyw risgiau mawr. Fe wnaeth archwiliad mewnol diweddar o arian mân a thaliadau arbennig roi sicrwydd sylweddol, gan ganfod dim ond mân faterion cydymffurfio.

64 Fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon anarchwiliedig drafft ar gyfer 2024-25 erbyn terfyn amser Llywodraeth Cymru. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ynglŷn â'u cywirdeb a'u tegwch, a barn amodol ynglŷn â'u rheoleidd-dra yn seiliedig ar anallu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon ariannol dros y tair blynedd ddiwethaf.

## Monitro perfformiad ariannol

65 Mae swyddogion yn rhoi adroddiadau ariannol eglur i'r Pwyllgor Cyflawni Gweithrediadol a'r Bwrdd. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos risgiau allweddol i dargedau ariannol ac yn egluro heriau o ran cyllid a chyflawni. Mae bod yn agored fel hyn yn helpu i oleuo prosesau penderfynu'r Bwrdd, yn enwedig mewn perthynas â blaenoriaethu buddsoddiad a deall canlyniadau penderfyniadau.

66 Mae aelodau'r Bwrdd yn parhau i ddarparu ffocws cryf ar berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae swyddogion cyllid yn rhoi atebion eglur a manwl i gwestiynau aelodau'r Bwrdd. Mae eu hadroddiadau, ynghyd ag ymwneud brwd gan swyddogion a chan aelodau'r Bwrdd, yn helpu i ategu penderfyniadau da ac atebolrwydd ariannol.

# Argymhellion

Mae'r tabl canlynol yn manylu ar yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith.

## Argymhellion

**A1** Dylai'r Bwrdd Iechyd adrodd yn eglur ar effaith camau gweithredu a gymerwyd i liniaru risgiau sefydliadol yn ei gofrestr risgiau sefydliadol. **(Gweler paragraff 28)**

**A2** Dylai'r Bwrdd Iechyd weithredu ar frys ac yn barhaus i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Risg Cymru trwy:

1.1 cwblhau camau gweithredu sy'n dal heb eu rhoi ar waith a adnabuwyd yn adroddiad Asesu Pryderon Cronfa Risg Cymru;

1.2 cywiro gwendidau a amlygwyd gan y gwasanaeth archwilio mewnol yn ei adolygiad o Gronfa Risg Cymru; a

1.3 gwella amseroldeb cyflwyno Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau (LFERs). **(Gweler paragraff 34)**

**A3** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod atebolrwydd am roi argymhellion archwilio ar waith yn rhan allweddol o'i Fframwaith Atebolrwydd newydd. **(Gweler paragraff 39)**

**A4** Erbyn Ebrill 2026, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu fframwaith trefnu strategaeth i gydlynu'r holl raglenni strategol a sicrhau bod ei strategaeth hirdymor yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus. **(Gweler paragraff 42)**

**A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd safoni cynnwys 'Cynlluniau ar Dudalen' ei Gynllun Tymor Canolig Integredig i sicrhau cysondeb, eglurder, a'i gwneud yn haws cymharu blaenoriaethau a chynnydd. **(Gweler paragraff 49)**

**A6** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau adroddiadau chwarterol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy ddangos yn glir beth yw effaith cyflawni'r cynllun ar draws yr holl feysydd gofynnol fel bod cynnydd a heriau'n amlwg. **(Gweler paragraff 50)**

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom fwrw golwg ar y meysydd canlynol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2005 a mis Tachwedd 2025:

- Pa mor dda y mae'r Bwrdd yn gweithio.
- Pa mor dda y mae'r Bwrdd yn goruchwylio risgiau, perfformiad ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn tracio argymhellion.
- Pa mor dda y mae'r corff yn paratoi strategaethau a chynlluniau allweddol.
- Pa mor dda y mae'r corff yn rheoli ei gyllid.

Ni wnaethom fwrw golwg ar drefniadau gweithrediadol y corff.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe wnaeth ein harchwiliad ymdrin â'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol, ac yn dryloyw?
- A oes dull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau?
- A oes dull corfforaethol cadarn o gynhyrchu cynlluniau strategol a goruchwylio'r modd y'u cyflawnir?
- A oes dull corfforaethol cadarn lle mae cynllunio, rheoli a pherfformiad ariannol yn y cwestiwn?

### Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan y canlynol:

- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cynlluniau Cadw a Dirprwyo Pwerau.
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol.
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol gan Lywodraeth Cymru.

- Y Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru (Ail Rifyn).

## Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau.
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y CTCI.
- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.
- Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Polisïau a gweithdrefnau perthnasol.
- Adroddiadau a baratowyd gan gyrff allanol perthnasol eraill.

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Cadeirydd y Bwrdd
- Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Strategol
- Cadeirydd y Pwyllgor Cyflawni Gweithrediadol
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd
- Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
- Y Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
- Prif Swyddog Gweithredu
- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion
- Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd
- Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid
- Cyfarwyddwr Llywodraethu/Ysgrifennydd y Bwrdd
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg

Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:

- Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd
- Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd
- Y Pwyllgor Datblygu Strategol
- Y Pwyllgor Cyflawni Gweithrediadol
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad

# 2 Argymhellion archwilio blaenorol

## Argymhellion a oedd yn dal yn weddill o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu argymhellion a oedd yn dal yn weddill o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

| **Argymhellion 2022** |
| --- |
| **A1** Canfuom gyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau llywodraethu gweinyddol i wella tryloywder cyhoeddus ac ategu effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>b) cyhoeddi'r papurau ar gyfer holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd, pwyllgorau a grwpiau cynghori ar ei wefan mewn modd amserol; **(Wedi'i gwblhau, paragraff 7)**<br>d) diweddaru dalenni blaen cyflwyniadau i alluogi awduron i grynhoi'r wybodaeth yn ddigonol a chofnodi'r risgiau a'r materion perthnasol. **(Wedi'i gwblhau, paragraff 20)** |

**Argymhellion 2022**

**A4** Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran datblygu gweledigaeth hirdymor, nodau strategol, a blaenoriaethau strategol ar gyfer y sefydliad, nid yw'r strategaeth newydd (CTM 2030) yn cynnwys deilliannau eglur a mesuradwy. Felly dylai'r Bwrdd Iechyd geisio mynegi deilliannau ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, sut y byddai llwyddiant yn edrych, a sut y bydd yn mesur cynnydd ac yn adrodd arno. Wrth wneud hynny, dylai ystyried y berthynas rhwng nodau Strategaeth Iechyd y Boblogaeth a'r nodau strategol ehangach a'r dull 'cwrs bywyd' ar gyfer iechyd y cyhoedd a nodir yn CTM 2030. **(Wedi'i gwblhau, paragraff 49)**

**A5** Canfuom gyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau a strategaethau corfforaethol, ac adrodd ar gynnydd wrth y Bwrdd. Felly dylai'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau trwy sicrhau:

a) bod cynlluniau a strategaethau'n cynnwys crynodebau eglur o gamau gweithredu/canlyniadau allweddol, graddfeydd amser, a mesurau i roi cymorth i fonitro ac adrodd yn effeithiol; **(Hwyr, paragraff 51)**
b) bod cynlluniau a strategaethau'n darparu mwy o fanylder ynglŷn â pha Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n gyfrifol am gyflawni camau gweithredu/canlyniadau allweddol i alluogi atebolrwydd priodol; **(Hwyr, paragraff 51)**
c) bod adroddiadau'n cyd-fynd ag adroddiadau ar berfformiad i alluogi'r Bwrdd i asesu i ba raddau y mae cyflawni camau gweithredu/canlyniadau allweddol yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad y Bwrdd Iechyd. **(Wedi'i ddisodli, Argymhelliad 6 yn 2025)**

**Argymhellion 2022**

**A7** Er bod gweithdrefnau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd yn effeithiol fel rheol, fe wnaethom adnabod cyfleoedd i gryfhau rhai rheolaethau a diweddaru'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

c) sicrhau bod gweithdrefnau rheolaeth ariannol sydd wedi dyddio'n cael eu tynnu oddi ar ei wefan a'u disodli â'r fersiynau cyfredol. **(Wedi'i gwblhau, paragraff 63)**

**A9** Ceir capasiti cyfyngedig yn y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei agenda trawsnewid digidol yn llawn. Felly dylai'r Bwrdd Iechyd geisio nodi yn ei Strategaeth Ddigidol wedi'i diweddaru sut y mae'n bwriadu goresgyn heriau staffio a chyllid i gael budd llawn o'r manteision a gynigir gan dechnolegau a datrysiadau digidol. **(Wedi'i gwblhau, wedi'i asesu fel rhan o'n hadolygiad o drawsnewid digidol)**

**Argymhellion 2023**

**A2** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd da o fideos yng nghyfarfodydd pwyllgorau i gyflwyno storïau cleifion a staff. Fodd bynnag, nid ydynt ar gael wedyn ar wefan y Bwrdd Iechyd. Felly dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod unrhyw fideos a ddangosir yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau ar gael ar ei wefan er mwyn cyflawnrwydd a hynny gyda chytundeb y cyfranwyr. **(Wedi'i gwblhau, paragraff 21)**

**Argymhellion 2023**

**A3** Mae cofnodion drafft cyfarfodydd pwyllgorau’n cael eu cynhyrchu’n gyflym ac yn cael eu hadolygu gan y cadeirydd perthnasol; fodd bynnag, nid ydynt ar gael yn gyhoeddus nes bod papurau’r cyfarfod dilynol yn cael eu cyhoeddi. Ar ben hynny, nid yw cyfarfodydd pwyllgorau’n cael eu ffrydio’n fyw na’u recordio ar gyfer defnydd y cyhoedd. Felly dylai’r Bwrdd Iechyd ystyried sefydlu trefniadau priodol i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad mwy amserol at gofnodion cyfarfodydd pwyllgorau fel rhan o’i ymdrechion ehangach i wella tryloywder busnes y Bwrdd. **(Wedi’i gwblhau, paragraff 9)**

**A4** Er bod y Bwrdd a phwyllgorau’n adolygu ac yn cadarnhau cofnodion cyfarfodydd blaenorol, nid ydynt wastad yn cael eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd mewn modd amserol. Felly dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion wedi’u cadarnhau’n cael eu lanlwytho i’r adran berthnasol o’i wefan mewn modd amserol i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad llawn at gofnodion cymeradwy cyfarfodydd. **(Wedi’i gwblhau, paragraff 9)**

**A5** Er bod gan y Bwrdd Iechyd ardal wedi’i neilltuo ar ei wefan ar gyfer polisïau a gweithdrefnau, mae rhai ohonynt wedi dyddio. Felly dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar ei wefan yn gyfoes ac, os nad ydynt, dylai roi cynllun eglur ar waith i’w diwygio a’u cymeradwyo. **(Wedi’i gwblhau, paragraff 12)**

**Argymhellion 2023**

**A6** Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i reoli perfformiad gweithrediadol; fodd bynnag, nid oes ganddo fframwaith rheoli perfformiad wedi'i ddogfennu. Er mwyn gwella ei drefniadau ymhellach, dylai'r Bwrdd Iechyd baratoi fframwaith ysgrifenedig sy'n nodi'n glir beth yw'r rolau, y cyfrifoldebau a'r mynychder ar gyfer adolygu perfformiad ar lefelau gwasanaethau, rheolwyr, pwyllgorau a'r Bwrdd. **(Ar y gweill, paragraff 29)**

**Argymhellion 2024**

**A1** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau trefniadau i fonitro, adolygu a diweddaru polisïau'r Bwrdd Iechyd ac adrodd yn rheolaidd wrth Bwyllgor perthnasol y Bwrdd ar gynnydd. **(Ar y gweill, paragraff 12)**

**A2** Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno trefniadau i adnabod a monitro camau gweithredu sy'n codi o'i storïau gwrando a dysgu. **(Ar y gweill, paragraff 21)**

**A3** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd trwy adrodd yn glir ar effaith camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i liniaru ei risgiau strategol. **(Ar y gweill, paragraff 27)**

**Argymhellion 2024**

**A4** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei Ddangosfwrdd Perfformiad Integredig trwy fynegi'n glir a yw camau gweithredu i wella tanberfformiad yn cyflawni eu heffaith fwriadedig. **(Ar y gweill, paragraff 30)**

**A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei adroddiadau ar y Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd trwy:

R5.1 sicrhau bod adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn fwy eglur ynghylch yr heriau y mae'n eu profi wrth wreiddio'r gofynion; **(Ar y gweill, paragraff 35)**

R5.2 cynnwys cerrig milltir a thargedau priodol i helpu'r darllenydd i ddeall pan fo'n amcanu at gyflawni blaenoriaethau. **(Ar y gweill, paragraff 35)**

**A6** Dylai'r Bwrdd Iechyd:

R6.1 sicrhau ei fod yn mynd ati'n gyflym i gwblhau ei waith i gryfhau'r offeryn tracio argymhellion archwilio; **(Wedi'i gwblhau, paragraff 36)**

R6.2 cryfhau perchnogaeth ar gyflawni ac atebolrwydd am gyflawni argymhellion archwilio. **(Ar y gweill, paragraff 39)**

**A7** Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi sut y mae pob amcan llesiant unigol yn cyd-fynd â'r nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant ei bartneriaid. **(Ar y gweill)**

**Argymhellion 2024**

**A8** Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ac adrodd ar fesurau deilliannau'r boblogaeth i ddangos effaith ei waith i gyflawni'r strategaeth. **(Ar y gweill, paragraff 50)**

**A9** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau ar y strategaeth a chynlluniau corfforaethol trwy fynegi'n eglur ble y mae cyflawni oddi ar y trywydd iawn, camau lliniaru, a graddfeydd amser diwygiedig ar gyfer cyflawni. **(Ar y gweill, paragraff 51)**

**A10** Dylai'r Bwrdd Iechyd:

R10.1 monitro a rheoli unrhyw risgiau uniongyrchol i ansawdd a pherfformiad a allai godi o ganlyniad i fuddsoddiad cyfyngedig neu ddim buddsoddiad mewn gwasanaethau wrth iddo geisio mantoli'r cyfrifon ariannol yn y tymor byr; **(Wedi'i gwblhau, paragraff 56)**

R10.2 datblygu cynllun ariannol hirdymor, y tu hwnt i'w Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024-27, sy'n cyd-fynd â'i strategaeth sefydliadol er mwyn cyflawni cynaliadwyedd ariannol. **(Ar y gweill, paragraff 57)**

# Argymhellion o'n Hadolygiad yn 2024 o Drefniadau Arbed Costau

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran rhoi argymhellion ar waith o'n Hadolygiad yn 2024 o Drefniadau Arbed Costau

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd asesu'r potensial i gyflawni arbedion gweithrediadol a'r risgiau ym mhob Grŵp Gofal a Grŵp Gwasanaethau Clinigol a hynny'n barhaus. **(Wedi'i gwblhau)** |
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei gynlluniau trawsnewid gwasanaethau'n nodi'n fwy penodol sut y byddant yn helpu'r sefydliad i gyflawni cynaliadwyedd ariannol o ran yr arbedion a fydd yn cael eu creu a'r raddfa amser ar gyfer eu cyflawni. **(Ar y gweill)** |
| **A3** | Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud gwelliannau o ran sut y mae'n defnyddio data a chuddwybodaeth i oleuo ei drefniadau adnabod a dethol arbedion trwy:<br>R3.1 estyn ei ddefnydd o ddata a chuddwybodaeth ar draws ystod ehangach o'i wasanaethau; **(Ar y gweill)**<br>R3.2 bwrw ymlaen yn gyflym â gwaith ar ei ystorfa ddata leol i hwyluso'r broses systematig o gasglu data meincnodi. **(Ar y gweill)** |
| **A4** | Lle adnabyddir cyfleoedd 'buddsoddi i arbed' a lle'r eir ar eu trywydd trwy'r Rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd dylai'r Bwrdd Iechyd gadarnhau ei fod yn gallu darparu digon o gyllid rhag blaen i'w cefnogi a'i fod yn gallu dangos adenillion amlwg ar fuddsoddiad. **(Wedi'i gwblhau)** |

**Argymhellion**

**A5** Mae angen i gynlluniau ar gyfer trawsnewid gwasanaethau (pum mlynedd a mwy) gael eu datblygu wrth i'r Grwpiau Gofal barhau i aeddfedu a chanolbwyntio'n fwyfwy ar iechyd y cyhoedd, atal, gofal cymunedol a gweithio rhanbarthol. **(Ar y gweill)**

**A6** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau atebolrwydd gweithrediadol cryfach am gyflawni arbedion a rheoli risgiau i'w sefyllfa sylfaenol mewn modd mwy effeithiol. **(Wedi'i gwblhau)**

**A7** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod digon o sgiliau, capasiti a gallu ar draws ei dimau corfforaethol a gweithrediadol i drawsnewid gwasanaethau'n effeithiol dros y tymor hwy. **(Ar y gweill)**

**A8** Dylai'r Bwrdd Iechyd adnabod y gwersi allweddol o'i ddull o adnabod a chyflawni arbedion yn ystod 2023-24 a chymhwyso'r gwersi i'w ddull yn y dyfodol. **(Ar y gweill)**

# 3 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd adrodd yn eglur ar effaith camau gweithredu a gymerwyd i liniaru risgiau sefydliadol yn ei gofrestr risgiau sefydliadol. | Byddwn yn gweithio gyda pherchnogion risg i fod yn gliriach ynghylch ansawdd/ maint y sicrwydd bod camau gweithredu wedi cael effaith gadarnhaol ar y sgôr risg. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau o ran darparu adnoddau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, rydym yn awgrymu ein bod yn gohirio gweithgarwch i roi'r argymhelliad hwn ar waith yn llawn tan flwyddyn ariannol 2027-28. | 30 Mehefin 2027 | Cyfarwyddwr Llywodraethu / Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd weithredu ar frys ac yn barhaus i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Risg Cymru trwy:<br>2.1 cwblhau camau gweithredu sy'n dal heb eu rhoi ar waith a adnabuwyd yn adroddiad Asesu Pryderon Cronfa Risg Cymru;<br>2.2 cywiro gwendidau a amlygwyd gan y gwasanaeth archwilio mewnol yn ei adolygiad o Gronfa Risg Cymru; a<br>2.3 gwella amseroldeb cyflwyno Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau (LFERs). | Argymhelliad wedi'i gytuno. Byddwn yn ceisio gwneud cynnydd ym mhob un o'r meysydd hyn yn ystod 2026-27. | 31 Rhagfyr 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod atebolrwydd am roi argymhellion archwilio ar waith yn rhan allweddol o'i Fframwaith Atebolrwydd newydd. | Argymhelliad wedi'i gytuno – byddwn yn cyflawni ein cyfrifoldebau rheoli perfformiad trwy'r Fframwaith Atebolrwydd newydd. Bydd y fframwaith hwn yn dod yn rhan o drefniadau cyfarfodydd rheolaidd ac yn darparu llwybr uwchgyfeirio integredig a all gynnwys argymhellion archwilio. | 30 Medi 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A4 Erbyn Ebrill 2026, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu fframwaith **trefnu** strategaeth i gydlynu'r holl raglenni strategol a sicrhau bod ei strategaeth hirdymor yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus. | Argymhelliad wedi'i gytuno – mae gwaith i ddatblygu'r fframwaith ar y gweill gydag Ebrill 2026 wedi'i bennu fel dyddiad gweithredu. | 30 Ebrill 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd safoni cynnwys 'Cynlluniau ar Dudalen' ei Gynllun Tymor Canolig Integredig i sicrhau cysondeb, eglurder, a'i gwneud yn haws cymharu blaenoriaethau a chynnydd. | Wedi'i gytuno – byddwn yn sefydlu hyn ar gyfer 2027-28. | 31 Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau adroddiadau chwarterol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy ddangos yn glir beth yw effaith cyflawni'r cynllun ar draws yr holl feysydd gofynnol fel bod cynnydd a heriau'n amlwg. | Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn darparu rhai metrigau a chyfeiriadau at feysydd eraill y mae cyflawni allweddol yn digwydd ynddynt, gan gynnwys cynllun digidol a data, cynllun pobl a.y.b. Rydym wedi canolbwyntio'r adroddiad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar y gofynion Gweinidogol gan bod yr Adroddiad Perfformiad Integredig yn nodi'r holl fesurau allweddol, ac rydym wedi ymdrechu i beidio ag ailadrodd hyn. | 30 Medi 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid |

| **Argymhelliad** | **Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig** | **Dyddiad cwblhau** | **Swyddog cyfrifol** |
|---|---|---|---|
| | Roedd gennym ffocws yn wreiddiol ar ddiweddariadau nifer o grwpiau gofal ym mhob Pwyllgor Cyflawni Gweithrediadol a oedd yn darparu'r manylion am y cynnydd gyda hwy, felly roeddem yn cyfeirio at y diweddariadau hyn a oedd yn digwydd yn yr un cyfarfodydd.<br><br>Rydym yn cytuno i adolygu ein trefniadau adrodd eto ac yn bwriadu gwneud hynny ochr yn ochr â'r newidiadau i'r Adroddiad Perfformiad Integredig. | | |

# 4 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cofrestr Buddiannau** | Mae'r Gofrestr Buddiannau'n helpu i sicrhau tryloywder trwy gofnodi unrhyw fuddiannau personol neu fusnes gan aelodau'r Bwrdd a staff a allai ddylanwadu ar benderfyniadau. |
| **Cofrestr Risgiau Corfforaethol** | Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi risgiau arwyddocaol y sefydliad (naill ai'r rhai â sgoriau uchel neu ag effaith ar draws y sefydliad cyfan) a'r camau gweithredu sydd yn eu lle i'w rheoli. |
| **Colledion** | Mae colledion yn cynnwys pethau fel lladrad, twyll, gordaliadau, neu ddifrod i eiddo. |
| **Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog** | Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn nodi'r cyfrifoldebau, polisïau a gweithdrefnau ariannol a fabwysiadwyd gan y sefydliad. |
| **Cynllun Cadw a Dirprwyo** | Mae'r Cynllun Cadw a Dirprwyo'n nodi pa gyfrifoldebau sy'n aros gyda'r Bwrdd, a pha rai a drosglwyddir i bwyllgorau a swyddogion gweithredol, ynghyd â threfniadau adrodd i sicrhau goruchwyliaeth briodol. |
| **Cynllun Gwasanaethau Clinigol Strategol** | Cynllun hirdymor yw'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol Strategol sy'n helpu i siapio sut y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu dylunio a'u darparu i ddiwallu anghenion cleifion a chymunedau. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cynllun Tymor Canolig Integredig** | Cynllun tair blynedd yw Cynllun Tymor Canolig Integredig sy’n nodi sut y bydd y sefydliad yn darparu ei wasanaethau, yn rheoli ei weithlu, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol i adennill costau. Mae’r sefydliad yn cyflwyno ei gynllun i Lywodraeth Cymru i gael ei gymeradwyo. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015)** | Mae’r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio’n gynaliadwy ac yn gydweithredol i wella llesiant ar draws meysydd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, trwy bennu nodau hirdymor (a elwir yn amcanion llesiant), cynnwys dinasyddion, a gwneud penderfyniadau sy’n ystyried yr effaith ar genedlaethau’r dyfodol. |
| **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** | Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi’r risgiau sy’n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad, a’r rheolaethau a’r sicrwydd sydd yn eu lle i reoli’r risgiau hynny. |
| **Gweithred Tendr Sengl** | Ystyr Gweithred Tendr Sengl yw pan fo sefydliad yn prynu nwyddau neu wasanaethau gan un cyflenwr heb fynd trwy broses gystadleuol, fel arfer am mai dim ond un opsiwn addas sydd neu am bod eu hangen ar frys. |
| **Gwrth-Dwyll** | Mae gwrth-dwyll yn cyfeirio at y gweithgarwch a gyflawnir gan y sefydliad i atal, canfod ac ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Arweinir y gwaith hwn gan Wasanaeth Gwrth-Dwyll y GIG yng Nghymru, sy’n gweithredu dan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. |
| **Llywodraethu Ansawdd** | Ystyr llywodraethu ansawdd yw’r cyfuniad o strwythurau, prosesau ac ymddygiadau a ddefnyddir gan sefydliad, yn enwedig ei fwrdd, i arwain ar berfformiad a sicrhau perfformiad o ansawdd da, gan gynnwys diogelwch, effeithiolrwydd, a phrofiad cleifion. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Rheolau Sefydlog** | Mae rheolau sefydlog yn nodi’r rheolau a gweithdrefnau ar gyfer sut y mae’r sefydliad yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau. |
| **Taliadau Arbennig** | Ystyr taliadau arbennig yw taliadau unigol a wneir mewn sefyllfaoedd anarferol – fel iawndal neu arwydd o ewyllys da – sydd y tu allan i weithgarwch busnes arferol y sefydliad. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru’n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a’r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n gorff a sefydlwyd i gefnogi’r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw’r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.